Ymateb i Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r pum argymhelliad a geir ynddo.

Argymhelliad 1 – Rydym yn argymell bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau chwe misol gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion digidol yn yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ein galluogi i ailystyried y materion hyn yn ddiweddarach.

Derbyn – Rydym yn cydnabod pryderon y Pwyllgor a chymerwyd camau gweithredu i gyflymu'r ddarpariaeth; roedd y mwyafrif ar waith cyn adroddiad terfynol y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau casglu tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad tua 2 flynedd yn ôl, ac ers hynny, gwnaed nifer o welliannau i'n prosesau llywodraethu system gyfan ar ran y rhaglenni gwybodeg a newid digidol.

Ad-drefnwyd y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol er mwyn canolbwyntio ar ddulliau cydweithio'r Byrddau Iechyd a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn gwella'r ffordd y cyflawnwyd *Iechyd a Gofal Gwybodus: strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal* y cytunwyd arni, ac adlewyrchwyd hyn yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r ymrwymiad i gynyddu'r buddsoddiad, a'r ffocws ar wasanaethau digidol a gwybodeg a geir yn y cynllun *Cymru Iachach* a gyhoeddwyd yn gynharach eleni fel cynllun hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i Gymru. Roedd hyn mewn ymateb i sylwebaeth fanwl yn yr Adolygiad Seneddol ynglŷn â chyfleoedd a chynnydd o ran gwasanaethau digidol a chafodd ei lywio drwy ymgysylltu â'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau a'r darparwyr.

Disgwyliaf y bydd adroddiadau rheolaidd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor i weld cynnydd mewn perthynas ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r buddsoddiad sydd ar gael, o fewn chwech mis bydd y Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol tair blynedd wedi'i sefydlu, a bydd adolygiadau o'r saernïaeth ddigidol a threfniadau llywodraethu gwybodeg yn GIG Cymru wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 2 – Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu'n fawr am y dystiolaeth a glywsom ar fethiannau systemau, seilwaith a chydnerthedd. O ystyried tystiolaeth ddiweddar o fethiannau pellach ers i ni dderbyn tystiolaeth, hoffem gael sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru bod y systemau yn gadarn. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno amserlen eglur ar gyfer sefydlogi seilwaith digidol GIG Cymru.

Derbyn – Fel y disgwylid, gallaf eich sicrhau bod y systemau hollbwysig yn cael eu profi'n gyson fel mater o drefn i sicrhau eu bod yn addas at y diben. Darperir gwasanaethau canolfannau data yng Nghymru mewn amgylchedd o ansawdd sy'n derbyn achrediad annibynnol i sicrhau bod y safonau'n diwallu anghenion ISO. Cynhaliwyd yr achrediad diwethaf ym mis Medi 2018 ac mae'r holl achrediadau ISO wedi'u diweddaru.

Bydd y Pwyllgor yn awyddus i wybod bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn rhoi mwy o ffocws ar gynnal a chadw fel mater o drefn (e.e. uwchraddio cadarnwedd) a chynnal gweithgareddau uwchraddio y tu allan i oriau gwaith craidd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, darparodd Llywodraeth Cymru £9.3 miliwn o gyllid ychwanegol i ariannu amnewidiadau hanfodol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn datblygu achos busnes i sicrhau cyllid ychwanegol i leihau'r tebygolrwydd o fwy o amser segur. Rydym hefyd yn disgwyl i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth roi cynlluniau parhad busnes priodol ar waith, gan gynnwys defnyddio'r Egwyddorion Rhyngweithredu Cydwasanaethau Brys i reoli achosion digwyddiadau mawr yn ymwneud â TGCh neu seiberddiogelwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu darparu cyllid tuag at systemau hanfodol, ac adlewyrchir hyn yng Nghynllun Gwybodeg Cenedlaethol Cymru Gyfan dros dair blynedd a fydd yn mynd gerbron y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Bydd hwn yn cael ei lywio ymhellach gan allbwn o'r adolygiad saernïol a fydd yn cychwyn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Disgwyliwn i Gynllun Tymor Canolig Integredig pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd adlewyrchu'r agenda hon y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Argymhelliad 3 – Yn y trafodaethau ar y defnydd o gyfrifiadura Cwmwl ac effaith methiannau diweddar, roedd yn peri pryder mawr iawn, pan ymddengys bod gan lawer o systemau defnyddwyr berfformiad ac amser gweithredol cadarn, bod GIG Cymru yn cael trafferth yn rhedeg ei ganolfannau data ei hun gydag 21 o fethiannau yn ystod 6 mis cyntaf 2018 - un methiant bob 9 diwrnod. Mae'r Pwyllgor yn argymell adolygiad o'r gallu uwch arweinyddiaeth o ran set sgiliau a llywodraethu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol ehangach y GIG.

Derbyn – Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen "Defnydd o'r Cwmwl" wedi datblygu canllawiau ar gyfer y defnydd o'r gwasanaethau Cwmwl yn GIG Cymru. Mae'r canllawiau'n annog y defnydd o'r gwasanaethau cwmwl ochr yn ochr â meddalwedd traddodiadol a modelau defnyddio seilwaith o fewn y broses achos busnes ac ym mis Ebrill 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a phob

bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru, i'r ddogfen canllawiau gael ei chyhoeddi.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi gweithio ar fabwysiadu gwasanaethau cwmwl newydd ers nifer o flynyddoedd, ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi mwy na 10,000 o ddefnyddwyr, gan ddefnyddio gwasanaethau cwmwl Microsoft Office 365 ar gyfer e-byst, storio ffeiliau, Skype a gwasanaethau eraill. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cefnogi'r Byrddau Iechyd sy'n gweithio ar ddefnyddio PowerBI (Gwasanaethau Deallusrwydd Busnes) gan ddefnyddio'r Cwmwl. Mae un o gyflenwyr systemau Meddygon Teulu GIG Cymru yn defnyddio 'UKCloud' i letya'r systemau ar gyfer ei bractisau Meddygon Teulu.

Yn ogystal â hyn, cydweithiodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru â Microsoft a sefydliadau GIG Cymru dros y 18 mis diwethaf i roi'r systemau sylfaenol ar waith sy'n caniatáu i sefydliadau GIG Cymru ddefnyddio gwasanaethau cwmwl Microsoft Azure.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn seilwaith digidol, technolegau a chapasati'r gweithlu, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth ddigidol genedlaethol a threfniadau cyflenwi, yn unol â'r addewid yn y cynllun *Cymru Iachach*.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o ymrwymiad *Cymru Iachach* i adolygu swyddogaethau cenedlaethol sy'n cael eu lletya, sy'n cynnwys Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gyda'r nod o gydgrynhoi'r gweithgareddau cenedlaethol ac egluro trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Trafodwyd hyn yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor.

Mae'r anghenion llywodraethu ar draws y system gyfan yn nodwedd o'r adolygiad i lywodraethu gwybodeg a fydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Mae'r adolygiad, a gychwynwyd yn gynharach eleni, wedi cyfweld ag oddeutu cant o bobl sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth ddigidol a rheoli gwybodeg, gan gynnwys clinigwyr, ar draws y GIG gyda'r bwriad o baratoi adroddiad yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y cam gweithredu hwn eisoes ar waith cyn derbyn argymhellion y Pwyllgor, a grëwyd gan yr Adolygiad Seneddol. Mae'n bwysig nodi mai adolygiad system gyfan fydd hwn ac ni fydd yn gyfyngedig i adolygiad o alluogrwydd a chapasiti Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Argymhelliad 4 – Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i or-ymestyn ar hyn o bryd, ac mae gwella yn golygu llawer mwy na thywallt mwy o arian i mewn i'r sefydliad presennol, sy'n annhebygol o gyflawni canlyniadau sylweddol gwahanol. Rydym yn argymell y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Derbyn – Rydym bob amser wedi cydnabod y cymhlethdodau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein gweledigaeth o gofnod electronig unigol, ac eisoes wedi derbyn argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru yn gynharach eleni i gomisiynu adolygiad o'n dull i adeiladu saernïaeth ddigidol i gefnogi hyn. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r datblygiadau yn y farchnad bresennol yn ogystal â darparu trosolwg o'r sail resymegol dros systemau lleol o'u cymharu â rhai cenedlaethol. Bydd hyn yn adeiladu ar y penderfyniadau a

wnaed y llynedd, gan gynnwys y cytundeb i wneud systemau storfa digidol cenedlaethol yn orfodol, sefydlu Bwrdd Safonau Technegol Cymru a datblygu cynlluniau ar gyfer “Adnodd Data Cenedlaethol” a fydd yn ein galluogi i wneud newidiadau sylweddol o ran sut rydym yn cipio, rheoli a defnyddio’r data sydd gennym ar draws ein systemau iechyd a gofal.

Bydd y camau gweithredu hyn, yn ogystal â’r adolygiad llywodraethu a sefydlu Gweithrediad y GIG, fel nodwyd yn y cynllun *Cymru Iachach*, yn dylanwadu ar ffurf a strwythur gwybodeg GIG Cymru yn y dyfodol, ac yn ein helpu i ymateb yn eglur i bryderon y Pwyllgor. Bydd y cynnydd yn y buddsoddiad digidol a ymrwymwyd iddo yn y cynllun *Cymru Iachach* yn cael ei lywio gan y Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol dros dair blynedd.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i barhau i fuddsoddi yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran y cymorth a’r datblygiadau hollbwysig i fusnes, a ddarperir yn genedlaethol, y mae’n gyfrifol amdanynt, tra bod y camau gweithredu hyn yn mynd rhagddynt.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i nodi fod y mentrau yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi arwain at fanteision o ran cost, yn ogystal â manteision gweithredol. Er enghraifft: arweiniodd y negodiadau rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Microsoft dair blynedd yn ôl at arbedion o 40% ar gostau trwyddedu Cytundeb Menter; arbedwyd £15 miliwn drwy gaffael y System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) – yn erbyn y costau contract presennol ar lefel Bwrdd Iechyd; mae caffael gwasanaethau a systemau Meddygon Teulu yn arbed £1 filiwn y flwyddyn ar gostau cytundeb craidd; a rhagwelir y bydd adleoli gwasanaeth argraffu a reolir ar draws y practisau Meddygon Teulu i gyd yn golygu arbedion o tua £4 miliwn dros saith mlynedd. Rwy’n fodlon rhannu rhagor o fanylion am werth am arian mewn perthynas â gweithrediadau TGCh Cenedlaethol.

Mae’n bwysig cydnabod bod cyfrifoldeb ar bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd i weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran datblygu a darparu systemau cenedlaethol sy’n cyd-fynd a’u cynlluniau buddsoddi lleol i gyflawni’r weledigaeth genedlaethol y cytunwyd arni am gofnod claf electronig integredig.

Argymhelliad 5 – Rydym yn argymell bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU. Gallai’r dull hwn weithio ar nifer o lefelau, o rannu arferion recriwtio da i greu Gwasanaeth Digidol Llywodraeth a allai weithio ar draws asiantaethau lluosog.

Derbyn – Rydym yn cydnabod bod rhannu arferion da yn hanfodol wrth i’r GIG yng Nghymru barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn bwysig wrth fynd i’r afael â’r heriau sy’n gysylltiedig ag recriwtio’r staff gorau yn y gofod digidol ac mae cyfleoedd i rannu, dysgu ac addasu.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio mwy ac yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, er enghraifft Awdurdodau Lleol, yn arbennig wrth roi'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ar waith, a chyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar lefel y DU.

Yn ogystal, rydym wedi dweud wrth y Pwyllgor am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag NHS Digital, yr Adran Iechyd, Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn hwyluso ac yn annog mwy o ymgysylltu, gan adeiladu ar y cytundebau sydd eisoes yn bodoli ac enghreifftiau o arloesi. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag Ecosystem Iechyd Digidol Cymru, yr endid sydd â llawer o randdeiliaid, gan gynnwys iechyd, academia a diwydiant, a sefydlwyd yn sgil *Iechyd a Gofal Gwybodus.* Mae cymuned gwybodeg glinigol GIG hefyd yn cael ei chynrychioli'n uniongyrchol ar Banel Trawsnewid Digidol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws amryfal asiantaethau drwy weithio'n agos â Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol i rannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Fel y nodir uchod, mae Bwrdd Safonau Technegol Cymru'r GIG wedi derbyn Egwyddorion Dylunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a Safonau Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson o ddatblygu gwasanaethau newydd.